

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications
Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB23
Ymateb gan BBC / Response from BBC



Ymgynghoriad ar Ddatganoli Darlledu

Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu

Ionawr 2020

1. Cyflwyniad

Mae'r BBC wedi bod yn un o gonglfeini bywyd Cymru ers y darllediad cyntaf yng Nghymru bron i ganrif yn ôl, a BBC Cymru Wales ydy prif ddarlledwr cyhoeddus y wlad.

Y Siarter Frenhinol yw sail gyfansoddiadol y BBC. Mae'n nodi Nodau, Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Mae'r Siarter hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r Gorfforaeth, gan gynnwys rôl a chyfansoddiad Bwrdd y BBC.

Dechreuodd y Siarter gyfredol ar 1 Ionawr 2017 a daw i ben ar 31 Rhagfyr 2027.

Ni fydd y BBC yn cynnig unrhyw farn ynghylch pa mor addas neu anaddas fyddai datganoli darlledu oherwydd byddai gwneud hynny'n tansilio ymrwymiad y BBC i fod yn ddiduedd ar yr hyn sydd, yn amlwg, yn fater o arwyddocâd cyhoeddus a thrafodaeth wleidyddol barhaus.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Pwyllgor allu cynnal trafodaeth ar sail gwybodaeth, rydym yn credu ei bod yn werth nodi rhai ffeithiau a ffigurau ynghylch y BBC yng Nghymru a darparu data cyson a rhannu gwybodaeth ar gyfer yn rheiny sydd â diddordeb. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ymwneud â 2018/19, cyfnod Adroddiad a Chyfrifon Blyneddol diweddaraf y BBC.

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- perfformiad cyffredinol y BBC yng Nghymru;
- gwasanaethau'r BBC ar draws y DU yng Nghymru, ynghyd â'u heffaith ar gynulleidfaedd a'u gwariant yng Nghymru;
- gwasanaethau'r BBC i Gymru, gan gynnwys eu gwariant, oriau allbwn ac effaith ar y gynulleidfa;
- perthynas y BBC gydag S4C
- ymrwymiad y BBC i'r iaith Gymraeg
- gweithgareddau'r BBC yng Nghymru sy'n mynd y tu hwnt i ddarlledu, megis ei bartneriaethau;
- rhwymedigaethau rheoleiddio ac atebolrwydd sy'n benodol i Gymru;
- argaeledd a dosbarthiad gwasanaethau'r BBC yng Nghymru, y rheini ar gyfer y DU i gyd a'r rheini ar gyfer Cymru'n unig;
- gwybodaeth weithredol am BBC Cymru.

2. Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n benodol i Gymru

2.1 Llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Siarter y BBC – sy'n para am 11 mlynedd – yn cryfhau atebolrwydd y BBC i'r Cynulliad Cenedlaethol/Senedd. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod y BBC yn atebol i'r ddeddfwrfa ac nid i'r llywodraeth.

Yn benodol, mae'r Siarter yn nodi nifer o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n cynnwys cydnabod Cymru ochr yn ochr â'r gwledydd eraill. Mae'r dyletswyddau ar y BBC yng nghyswllt Cymru'n cynnwys:

- Rhaid i aelod anweithredol o Fwrdd y BBC fod yn aelod o'r Bwrdd ar ran Cymru;
- Rhaid i'r BBC gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr un diwrnod â'i gyflwyno gerbron Senedd y DU, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny;
- Rhaid i'r BBC hefyd anfon yr Adroddiad Blynyddol at Weinidogion Cymru cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i'r BBC gyflwyno cyfrifon y grŵp ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr un diwrnod ag y mae'r dogfennau hynny'n cael eu cyflwyno gerbron Senedd y Deyrnas Unedig, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny;
- Rhaid i'r BBC gydymffurfio â chais gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr un modd ag y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â chais gan naill Dŷ Senedd y DU neu'r llall neu un o'r pwyllgorau sy'n ymwneud â materion Cymreig. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofyniad:
 - i fynd i'r trafodion er mwyn rhoi tystiolaeth, ac
 - i gyflwyno adroddiadau

2.2 Pwyllgor Cymru

Mae Pwyllgor Cymru yn un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ynghylch perfformiad a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru ac a yw'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd ac yn cyflawni cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC a'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Blynyddol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan yr aelod Bwrdd ar ran Cymru, Elan Closs Stephens

Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio strategaeth ymgysylltu â chynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru.

2.3 BBC Cymru Wales

Mae'r cyfrifoldeb golygyddol a gweithredol dros gyflawni strategaeth BBC Cymru yn cael ei ddirprwyo i Dîm Gweithredol BBC Cymru, dan arweiniad Cyfarwyddwr BBC Cymru, Rhodri Talfan Davies.

3. Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC a Rheoleiddio

3.1 Cenhadaeth y BBC

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd ac unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

3.2 Dibenion Cyhoeddus yBBC

Mae'n rhaid i'r BBC gyflawni 5 Diben Cyhoeddus sy'n cynnwys darparu newyddion diduedd, cynnwys dysgu ac ymrwymiad i gynnwys unigryw.

Mae'r 4^{yd} Diben Cyhoeddus yn cynnwys dyletswydd benodol ar y BBC i:

"... adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig: dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Wrth wneud hyn, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau'r bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig heddiw mewn modd dilys a chywir, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau a'r safbwyntiau gwahanol sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Wrth gomisiynu a darparu'r allbwn, dylai'r BBC fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad".

3.3 Fframwaith Rheoleiddio

Mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC.

Wrth i Ofcom gyflawni ei swyddogaethau mae'n rhaid iddo ystyried y canlynol fel sy'n ymddangos iddo'n berthnasol yn yr amgylchiadau:

- amcan y BBC i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus;
- pa mor ddymunol ydy amddiffyn cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;
- y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol.

Mae Ofcom hefyd yn gosod Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC sy'n cynnwys amodau rheoleiddio mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC:

- yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- yn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu;
- ac yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn cael gwasanaeth da.

Mae'r Drwydded Weithredu, fel y mae'n berthnasol i Gymru, yn cynnwys amodau penodol o ran nifer yr oriau teledu Saesneg, rhaglenni newyddion ac oriau newyddion radio y mae'n rhaid i BBC Cymru eu darlledu. Ar ben hynny, mae'n cynnwys amodau ar gyfer darparu agweddau penodol o gynnwys ar-lein.

3.4 Cynllun Blynyddol

Mae'n rhaid i'r BBC hefyd baratoi a chyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cynllun Blyneddol yn cynnwys y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno yn ogystal â darpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru.

4. Perfformiad cyffredinol y BBC yng Nghymru

Nod y BBC yw darparu rhaglenni a gwasanaethau unigryw ar deledu, ar radio ac ar-lein i bobl sy'n talu ffi'r drwydded yng Nghymru. Ar gyfartaledd, mae'n cyrraedd 93% o'r cyhoedd yng Nghymru bob wythnos ar draws pob llwyfan a gwasanaeth. Ar gyfartaledd mae cynulleidfa oedd yn treulio 20 awr a c14 munud y pen yn gwyllo Teledu'r BBC ac yn gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos, sy'n sylweddol uwch na ffigwr cyfartaledd y DU o 16 awr a 49 munud.

Yn y tabl isod, a drwy'r ddogfen hon, mae'r perfformiad ymysg cynulleidfa oedd yn cael ei gymharu â'r perfformiad ar draws y DU ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

Cyrhaeddiad ar draws y BBC

	Oedolion y DU	Oedolion Cymru
Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog y BBC yn gyffredinol %	91 %	93%

	Oedolion y DU	Oedolion Cymru
Amser cyfartalog y pen yn gwyllo Teledu'r BBC neu'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos aa:mm	16:49	20:14

Ffynonellau: Ipsos MORI dyddiadur CMI, BARB, RAJAR, Arolwg Sefydliad BARB

Ffigurau ansawdd ar draws y BBC

16+ oed Argraff Gyffredinol o'r BBC Sgôr gymedrig allan o 10	
DU	Cymru
7.0	7.1

Ffynhonnell: Arolwg Tracio Atebolrwydd ac Enw Da y BBC gan Kantar Media ar ran y BBC

Sgôr gymedrig allan o 10, 1 = anffafriol dros ben a 10 = ffafriol dros ben.

5. Gwasanaethau'r BBC ar draws y DU

Mae holl wasanaethau'r BBC ar draws y DU – neu wasanaethau rhwydwaith – ar gael ar draws Cymru.

- Ar deledu mae hynny'n golygu: BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News a BBC Parliament
- Ar radio mae hynny'n golygu: BBC Radio 1, 1Xtra, Radio 2, Radio 3, Radio 4, Radio 4 Extra, Radio 5 Live, Radio 5 Live Sports Extra, 6Music a'r BBC Asian Network
- Ar-lein mae hynny'n golygu: BBC Ar-lein a'r BBC iPlayer.

Mae BBC One a BBC Two yn cael eu haddasu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru – gyda rhaglenni wedi'u comisiynu gan BBC Cymru ac yn cael eu darlledu ar draws y ddwy sianel yng Nghymru.

5.1 Teledu Rhwydwaith y BBC

Mae cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau Teledu'r BBC yn 80% yng Nghymru, gyda gwylwyr yn gwyllo am 8 awr a 42 munud yr wythnos ar gyfartaledd.

Ar gyfartaledd mae gwylwyr yng Nghymru yn gwyllo 1 awr a 12 munud yn fwy o allbwn Teledu'r BBC bob wythnos o'u cymharu â chynulleidfaedd y DU.

Mesurau Ansawdd Teledu'r BBC

Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog a Chyfartaledd Amser fesul Defnyddiwr

Cynulleidfa	Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog (%)		Amser (fesul defnyddiwr) (aa:mm)	
	DU	Cymru	DU	Cymru
Holl Deledu'r BBC	78	80	07:36	08:24
BBC One	66.7	70	07:02	07:50
BBC Two	41.3	43	03:00	03:08
BBC Four	11.8	11	01:43	01:38
CBBC	3.4	3	02:25	*
CBeebies	6.3	5	04:07	*
Sianel BBC News	8.2	10	02:56	03:43
BBC Parliament	0.7	1	02:07	*

*Roedd maint y sampl ar gyfer amser fesul defnyddiwr yn rhy isel i adrodd arno

Ffynhonnell: BARB

Mynegai Gwerthfawrogiad (AI)

AI allan o 100		
	DU	Cymru
Holl Deledu'r BBC	80.0	81.2
BBC One	79.6	80.8
BBC Two	81.8	82.9
BBC Four	82.1	84.1

Ffynhonnell: Panel pwls o oedolion yng Nghymru 16+, gan GfK ar ran y BBC.

Mae'r Mynegai Gwerthfawrogiad (AI) yn sgôr gyfartalog - allan o 100 - ar sail y sgoriau mae'r ymatebwyr yn eu rhoi i raglenni roedden nhw wedi'u gwyllo'r diwrnod blaenorol (mae'r ymatebwyr yn rhoi sgôr allan o 10 i'r rhaglen ac mae'r holl farciau'n cael eu lluosio gyda 10 i roi AI allan o 100).

5.2 Comisiynu a chynhyrchu rhaglenni rhwydwaith yng Nghymru

Mae Cymru yn darparu rhai o raglenni mwyaf poblogaidd y BBC. O raglenni drama i raglenni ffeithiol ar deledu ac ar radio, mae'r rhain yn gonglfeini'r amserlen. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae'r sector ffilm a theledu yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol. Mae nifer o gynlluniau sy'n cydblethu wedi cyfrannu at y dirwedd cynhyrchu gyfoethog sydd gennym heddiw.

Roedd penderfyniad strategol y BBC i wario mwy o'r refeniw cynhyrchu y tu allan i Lundain wedi helpu i sbarduno'r twf hwn. Oherwydd yr ymrwymiad hwn, mae'r BBC a nifer o gwmnïau annibynnol yn cynhyrchu rhai o raglenni teledu mwyaf poblogaidd ac eiconig y gorfforaeth yng Nghymru.

Dros y blynyddoedd, mae'r rhain wedi cynnwys y gyfres, *Doctor Who*, sy'n boblogaidd ar draws y byd; conglaen amserlen BBC One ar nos Sadwrn, *Casualty*; a chynhyrchiad llwyddiannus Hartswood o *Sherlock*, clasur Syr Arthur Conan Doyle. Mae'r stori greadigol ac economaidd hon nawr yn parhau gyda *His Dark Materials*.

Mae BBC Cymru hefyd wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y rhaglenni a gynhyrchir sydd wedi cael eu comisiynu'n lleol ac sy'n cael eu dangos ar sianeli rhwydwaith. Mae'r rhain yn cynnwys y ddrama boblogaidd ddiweddar *Keeping Faith* ar BBC One (cynhyrchiad ar y cyd gydag S4C), *Hidden* (cynhyrchiad arall ar y cyd gydag S4C) ar BBC Four, rhaglenni dogfen cignoeth gan gynnwys *Gareth Thomas: HIV and Me* ar BBC One a *Wales: Land of the Wild* ar BBC Two.

Roedd cynyrchiadau o Gymru ar gyfer rhwydweithiau Teledu'r BBC yn y DU yn werth bron i £54m yn 2018 - gan gyfrannu 6.3% o wariant rhwydwaith cymwys y BBC. Mae'r BBC wedi rhagori'n gyson ar ei darged cynyrchiadau rhwydwaith o Gymru, sef 5%, dros y deng mlynedd diwethaf.

5.3 Radio Rhwydwaith y BBC

Mae gwasanaethau radio'r BBC ar draws y DU yn cyrraedd tua 69% o'r gynulleidfa yng Nghymru, sy'n uwch na'r lefel ar draws y DU (63%). Ar gyfartaledd mae gwrandawyr yng Nghymru'n treulio 11 awr a 49 munud yn gwrando ar Radio'r BBC, 2 awr ac 16 munud yn uwch na ffigur y DU sef 9 awr a 33 munud Mae'r sgôr gwerthfawrogiad gyfartalog ar gyfer holl radio'r BBC ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU.

Cyrhaeddiad Radio'r BBC

Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog a Chyfartaledd Amser fesul Defnyddiwr

Cynulleidfa	Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog (%)		Amser (fesul defnyddiwr) (aa:mm)	
	DU	Cymru	DU	Cymru
Holl Radio'r BBC	63%	69%	09:33	11:49
BBC Radio 1	17%	21%	06:21	08:06
BBC Radio 1 Extra	1.9%	1%	04:17	03:45
BBC Radio 2	27.2%	36%	11:55	14:05
BBC Radio 3	3.5%	3%	06:08	05:32
BBC Radio 4	19.3%	17%	10:59	10:48
BBC Radio 4 Extra	3.8%	3%	06:17	08:14
BBC Radio 5 Live	9.2%	8%	06:38	06:24
BBC Radio 5 Sports Extra	1.9%	2%	03:08	02:51
BBC Radio 6 Music	4.4%	4%	09:20	08:45
BBC Asian Network	1.1%	<1%	05:12	*

*Roedd maint y sampl ar gyfer amser fesul defnyddiwr yn rhy isel i adrodd arno

Ffynhonnell: RAJAR

Oedolion 15+. Roedd data Ch1 wedi cael ei redeg ar bwysau 12 mis.

Mynegai Gwerthfawrogiad (AI)

AI allan o 100		
	DU	Cymru
Holl Radio'r BBC	80.7	81.6
BBC Radio 1	78.4	78.9
BBC Radio 2	81.6	82.4
BBC Radio 4	80.7	81.2
BBC Radio 5 Live	79.3	73.0

Ffynhonnell: Panel pwls o oedolion yng Nghymru 16+, gan GfK ar ran y BBC.

Mynegai Gwerthfawrogiad (AI): cyfartaledd allan o 100 ar sail y sgoriau mae'r ymatebwyr yn eu rhoi i raglenni roedden nhw wedi'u gwyllo'r diwrnod blaenorol (mae'r ymatebwyr yn rhoi sgôr allan o 10 i'r rhaglen ac mae'r holl farciau'n cael eu lluosu gyda 10 i roi AI allan o 100).

Yn 2018/19, cynhyrchoedd BBC Cymru dros 450 awr o gynnwys ar gyfer gwasanaethau radio rhwydwaith y BBC, ac roedd dros 350 awr o hynny ar gyfer BBC Radio 3 ac oddeutu 100 awr ar gyfer BBC Radio 4.

Mae rhaglenni fel *Curious Under the Stars* yn elfen bwysig o amserlen Radio 4 gyda phedair cyfres yn cael eu cynhyrchu dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd y gyfres *Mabinogi* ei lansio ar Radio 3 ac roedd hefyd ar gael fel podlediad.

Mae'r tîm ffeithiol radio rhwydwaith yn cynhyrchu nifer o raglenni arbennig ar gyfer Radio 4 a Radio 3 yn ogystal â rhaglenni comisiwn i'r BBC World Service. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys rhaglenni am ddatganoli; prif ganwr *Trampolene* Jack Jones; merched yn niwylliant Cymru, ac awduron Cymreig yn y Gelli Gandryll.

5.4 BBC Ar-lein

Mae BBC Ar-lein yn cyrraedd 51% o gyhoedd Cymru bob wythnos. Mae hyn fymryn yn uwch na chyfartaledd y DU.

Cyrhaeddiad Pobl BBC Ar-lein 16+		
	DU	Cymru
BBC Ar-lein	48.1%	50.9%

Ffynhonnell: BBC Compass 2018/19 16+ Cyrhaeddiad 1-munud+.

6. Gwasanaethau'r BBC ar gyfer Cymru

6.1 Rhaglenni Saesneg ar gyfer Teledu a BBC iPlayer

Mae BBC Cymru yn darparu gwasanaeth teledu cenedlaethol i Gymru drwy BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer gyda rhaglenni sydd wedi'u teilwra yn ôl anghenion a chwaeth penodol cynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys newyddion a chwaraeon byw yn ogystal â rhaglenni dogfen, comedi, drama ac adloniant.

Mae 76% o'r gynulleidfa yng Nghymru yn gwylio BBC One Wales a BBC Two Wales bob wythnos, a chyrraedd yr cynulleidfa bellach drwy BBC iPlayer.

Cylch gwaith BBC One Wales a BBC Two Wales yw ategu amserlenni BBC One a Two y rhwydwaith drwy ddarparu rhaglenni genres cymysg sy'n apelio at gynulleidfaoedd Cymru. Mae'r rhaglenni hyn yn disodli cynnwys sydd ar gael fel arall ar BBC One ar draws gweddill y DU.

Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru i wylwyr yng Nghymru a dyma brif lwyfan y BBC ar gyfer rhoi sylw i ddigwyddiadau mawr yng Nghymru fel Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae rhaglenni'n cynnwys y brif raglen newyddion, *BBC Wales Today*. Mae cyrhaeddiad ei raglen newyddion am 6.30pm yn 39% a dyma'r rhaglen newyddion teledu sy'n cael ei gwyllo fwyaf yng Nghymru; y cyfresi drama poblogaidd *Keeping Faith* a *Hidden*; cyfres ffordd o fyw sydd wedi rhedeg ers tro byd *Weatherman Walking* a'r rhaglen defnyddwyr *X-Ray* yn ogystal â chomedi megis *Tourist Trap*. Mae rhaglenni dogfen arloesol ar BBC One a Two Wales yn cynnwys *Gareth Thomas: HIV and Me* a *Sam Warburton: Full Contact* a *Wales: England's Colony?*.

Ar BBC iPlayer, cynyddodd nifer y ceisiadau am gynnwys BBC Cymru deirgwaith i 44 miliwn yn 2018, diolch i lwyddiant amrywiaeth o gyfresi gan gynnwys *Keeping Faith* a *Hidden*. Roedd y naill gyfres a'r llall – a gomisiynwyd yn lleol gydag S4C – wedi ymddangos yn neg prif ddrama newydd y DU ar BBC iPlayer yn 2018.

Yn 2018/19 cynhyrchodd BBC Cymru 636 awr o allbwn gwreiddiol, a ddarlledwyd ar BBC One a Two Wales. Roedd hyn yn cynnwys 352 awr o Newyddion a Materion Cyfoes, 143 awr o Chwaraeon a 36 awr o ddrama, comedi, cerddoriaeth a chelfyddydau.

Cafodd tua 24% o allbwn cymwys BBC One a Two Wales ei gynhyrchu gan 39 o gwmnïau cynhyrchu annibynnol.

Mae'r gwariant ar raglenni ar gyfer BBC One Wales yn werth tua £33m y flwyddyn.

6.2 Gwasanaethau radio

BBC Radio Wales

Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion, sy'n cynnig ystod eang o genres ac sy'n adlewyrchu newyddion, materion, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal ag allbwn sy'n rhoi sylw i faterion sydd o bwys lleol a chenedlaethol, mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi sylw i faterion sydd o arwyddocâd yn y DU ac yn rhyngwladol, a hynny o safbwynt Cymreig.

Yn 2018/19, roedd BBC Cymru wedi darlledu 7,309 awr o gynnwys gwreiddiol. Roedd hyn yn cynnwys 1,826 awr o newyddion a materion cyfoes.

Dros y flwyddyn, roedd 18% o'r cynnwys ar BBC Radio Wales wedi'i gynhyrchu gan 32 cwmni cynhyrchu annibynnol.

Y llynedd, roedd gan BBC Radio Wales gyllideb o £15m ar gyfer cynnwys, dosbarthu, seilwaith a chostau cefnogi.

Mae BBC Radio Wales yn cyrraedd 12.6% o boblogaeth Cymru bob wythnos, gyda gwrandawyr yn gwrandao ar yr orsaf am 7 awr a 43 munud yr wythnos ar gyfartaledd.

BBC Radio Cymru

BBC Radio Cymru yw gorsaf lafar a cherddoriaeth Gymraeg genedlaethol y BBC, ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni i adlewyrchu newyddion, materion cyfoes, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

Yn ystod 2018/19, roedd yr orsaf wedi darlledu 7,260 awr o gynnwys gwreiddiol, a oedd yn cynnwys 1,177 awr o newyddion a materion cyfoes.

Dros y flwyddyn, roedd 21% o'r cynnwys ar BBC Radio Cymru wedi'i gynhyrchu gan 34 cwmni cynhyrchu annibynnol.

Mae gan BBC Radio Cymru gyllideb flynyddol o £14m ar gyfer cynnwys, dosbarthu, seilwaith a chostau cefnogi.

Mae BBC Radio Cymru yn cyrraedd 17.5% o'r rheini sy'n deall Cymraeg bob wythnos, gyda pobl yn gwrandao ar yr orsaf am 12 awr a 5 munud yr wythnos ar gyfartaledd.

Cyrhaeddiad ac Amser Gwrandao ar Radio Wales

Cynulleidfa	Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog (%)		Amser (fesul defnyddiwr) (aa:mm)	
	DU	Cymru	DU	Cymru
BBC Radio Wales		12.6%		07:43
BBC Local Radio	13.1%		08.36	

Cyrhaeddiad ac Amser Gwrandao ar Radio Cymru

Cynulleidfa	Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog (%)		Amser (fesul defnyddiwr) (aa:mm)	
	DU	Cymru	DU	Cymru
BBC Radio Cymru		17.5%*		12.05

Diffiniad o gyrhaeddiad; 15+ munud ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfa 15+ oed.

Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio ac amser fesul gwrandäwr; data ar sail Cyfanswm Ardal yr Arolwg – TSA).

* BBC Radio Cymru: Data RAJAR (cyrhaeddiad ac amser fesul gwrandäwr) ar sail 'Deall Cymraeg'. Mae BBC Radio Cymru'n cyrraedd 4.4% o'r boblogaeth gyffredinol dros 15 oed yng Nghymru sy'n gwrandao am 10:21 yr wythnos ar gyfartaledd.

BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru Argraff Gyffredinol

16+	Argraff Gyffredinol Sgôr gymedrig allan o 10
BBC Radio Cymru	7.3
BBC Radio Wales	7.1

Ffynhonnell: Arolwg Tracio Atebolrwydd ac Enw Da y BBC gan Kantar Media ar ran y BBC

Sgôr gymedrig allan o 10, 1 = anffafriol dros ben a 10 = ffafriol dros ben.

6.3 BBC Wales Online a Cymru Fyw

Mae BBC Wales Online a Cymru Fyw yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr sy'n cynnig cynnwys ar-lein arloesol ac unigryw sy'n adlewyrchu newyddion, materion cyfoes, materion, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl Cymru.

Yn 2018, roedd 4,617,382 yn pori cynnwys BBC Wales Online (Saesneg) bob wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys 3,2156 o borwyr wythnosol ar gyfer ein cynnwys newyddion Saesneg.

Yn 2018, roedd 198,036 yn pori cynnwys BBC Wales Online (Cymraeg) bob wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys 48,161 o borwyr wythnosol ar gyfer Cymru Fyw.

Yn 2018, roedd 4,778,376 yn pori BBC Wales Online (y ddwy iaith) bob wythnos ar gyfartaledd.

6.4 Bitesize

Mae BBC Bitesize yn wasanaeth ar draws y DU i gefnogi astudio ac addysg. Yng Nghymru mae gwasanaeth pwrpasol i gefnogi disgyblion sy'n astudio yng Nghymru yn unol â'r cwricwlwm ar draws y cyfnodau allweddol, TGAU a Safon Uwch. Mae Bitesize hefyd yn cynhyrchu pecynnau addysgol i gyd-fynd â digwyddiadau a thirnodau yng Nghymru ac eleni, er enghraifft, cynhyrchodd ddeunydd i gyd-fynd â'r gyfres Merched Mawreddog a oedd yn canolbwyntio ar Ferched yng Nghymru.

6.5 BBC Sesh

Mae BBC Sesh yn sianel cyfryngau cymdeithasol gan BBC Cymru - ar gyfer oedolion ifanc - i ddangos doniau newydd mwyaf cyffrous y wlad. Mae BBC Sesh yn postio fideos dyddiol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Instagram, Twitter a YouTube. Cafodd Sesh ei lansio ym mis Ebrill 2018 ac mae wedi datblygu a gweithio gyda dros 120 o gyfranwyr newydd o Fôn i Fynwy, ac mae bron i 90m wedi gwyllo ei fideos hyd yma. Pobl ifanc 18-34 oed yw ei gynulleidfa fwyaf.

7 Y BBC ac S4C

Yma rydym yn disgrifio partneriaeth greadigol BBC Cymru gydag S4C, ac yn egluro'r berthynas cyllido uniongyrchol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C.

7.1 Cyflenwi rhaglenni'r BBC iS4C

Mae'r hyn a elwir yn 'rhaglennu a gyfrannir' wrth galon perthynas y BBC gydag S4C. Mae Deddf Darlledu 1990 yn mynnu bod y BBC yn darparu dim llai na 520 awr o gynnwys i S4C bob blwyddyn. Mae'r bartneriaeth greadigol hon wedi bod wrth galon y byd darlledu Cymraeg ers 1982, ac mae'n cefnogi dibenion cyhoeddus y naill sefydliad a'r llall.

Yn ystod 2018/19 roedd BBC Cymru wedi darparu 557 awr o raglenni gwreiddiol i S4C. Roedd y rhaglenni hyn yn cynnwys rhai o gonglfeini amserlen oriau brig S4C, gan gynnwys yr opera sebon hynaf, *Pobol y Cwm* a'r brif raglen newyddion sef *Newyddion*.

Roedd y rhaglenni hyn yn 2018/19 yn werth £22m.

7.1.2 Newyddion a materion cyfoes

Mae'r rhaglen *Newyddion* am 9pm yn parhau wrth graidd ein darpariaeth i S4C. Mae'r rhaglen *Newyddion 9* wedi ennill gwobrau ac mae'n gosod safon uchel ac mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa a'r ffigurau gwyllo yn weddol gyson.

Gyda Bethan Rhys Roberts a Rhodri Llywelyn wrth y llyw, mae'r rhaglen yn dadansoddi prif straeon newyddion y dydd. Mae hefyd yn torri tir newydd gydag adroddiadau am straeon gwreiddiol o Gymru.

Mae rhaglenni newyddion a materion cyfoes eraill hefyd yn cynnwys y rhaglen banel *Pawb a'i Farn*. Rydym hefyd yn darparu rhaglenni byw o gynadleddau'r pleidiau gwleidyddol.

Bob diwrnod yn ystod yr wythnos rydym hefyd yn darparu bwletin newyddion wedi'i deilwra ar gyfer cynulleidfaoedd iau, *Ffeil*.

Ym mis Rhagfyr 2019, roeddem wedi cynhyrchu gwasanaeth canlyniadau byw dros nos i S4C ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol.

7.1.3 Drama

Mae *Pobol y Cwm* yn dilyn hynt a helynt cymuned Cwmderi ac mae wedi hen arfer â themâu anodd a straeon dadleuol. Mae'r rhain yn cynnwys alcoholiaeth a thrais domestig. Mae *Pobol y Cwm* wedi derbyn gwobrau cenedlaethol gan yr elusen Mind am y ffordd mae wedi portreadu rhai o'r materion dyrys hyn.

Dyma'r gyfres dydd Llun i ddydd Gwener fwyaf poblogaidd sy'n cael ei dangos drwy gydol y flwyddyn ar S4C a dyma gonglfaen yr amserlen min nos.

7.1.4 Chwaraeon

Mae chwaraeon byw yn rhan bwysig o'n cyflenwad o raglenni i S4C. Bob blwyddyn, mae'n cynnwys gemau rygbi Pro 12 ac Uwchgynghrair y Principality, darllediadau byw o holl gemau cartref Cymru yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad, yn ogystal â gemau rhyngwladol yr Hydref.

Wrth i ni edrych ymlaen at bencampwriaethau pêl-droed Ewro 2020, bydd BBC Cymru yn darparu rhaglenni byw o gemau Cymru, yn ogystal â chynnwys digidol ar gyfer llwyfannau eraill.

7.1.5 Yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae darlledu o Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn parhau yn un o gonglfeini ein rhaglenni ar gyfer S4C. Caiff y rhaglenni eu cyflwyno gan gyflwynwyr arbenigol a rhai newydd sy'n dod i'r fei ac mae'r darlledu cynhwysfawr yn golygu tua 100 awr ac mae'r rhaglenni'n cynnwys cymysgedd o gystadlaethau a dadansoddiadau a golwg ysgafnach ar y Maes a'r gweithgareddau ymylol.

7.1.6 Rhaglenni ffeithiol

Mae'r BBC hefyd yn cynhyrchu rhaglenni dogfen unwaith ac am byth ar gyfer y sianel fel *Zimbabwe*, *Taid a Fille'r* oedd y newyddiadurwraig Seren Jones yn dychwelyd i Zimbabwe lle cafodd ei mam ei geni ac fe gafodd gyfweiliad gyda'r Arlywydd Emmerson Mnangagwa.

Cyrhaeddiad Wythnosol Cyfartalog Rhaglenni BBC Cymru ar S4C % Cymru 16+ oed	
Rhaglenni BBC Cymru ar S4C (pob oedolyn)	5.4
Rhaglenni BBC Cymru ar S4C (oedolion sy'n siarad Cymraeg)	11.6

Ffynhonnell: BARB 2018/19 16+ cyrhaeddiad 3 munud

Mynegai Gwerthfawrogiad BBC Cymru ar S4C	
Rhaglenni BBC Cymru ar S4C	83

Ffynhonnell: Panel Pobl TRP ar ran S4C, 1,500 o Oedolion 16+ 2018/19

7.1.7 Rhagor o gydweithio golygyddol

Y tu hwnt i'r 520 awr statudol, mae BBC Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag S4C ar brosiectau rhaglennu a all fod yn fanteisiol i gynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg. Er enghraifft, mae'r cyfresi drama llwyddiannus *Keeping Faith/Un Bore Mercher a Hidden/Craithyn* cael eu comisiynu ar y cyd gan y BBC ac S4C, a bellach yn cael eu dosbarthu'n fyd-eang.

Caiff cynnwys y BBC ar gyfer S4C ei gynhyrchu gan y timau cynhyrchu mewnol, ac mae'n ategu'r arlwy o raglenni a gynhyrchir yn annibynnol sy'n gwneud gweddill gwasanaeth S4C.

7.2 Darparu gwerth ychwanegol i S4C

Y tu hwnt i gostau uniongyrchol cynhyrchu 520 awr o allbwn ar gyfer S4C, mae'r BBC yn darparu gwerth ychwanegol i'r sianel mewn nifer o ffyrdd pwysig.

Mae'r ffynonellau ychwanegol hyn yn cynnwys:

Mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC – mae'r rhaglen *Newyddion 9*, sy'n cael ei chynhyrchu gan y BBC ar gyfer S4C, yn gallu cael mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC ar draws y byd heb unrhyw gost ychwanegol er mwyn adrodd am y prif ddigwyddiadau rhyngwladol.

Rhaglenni chwaraeon - mae'r BBC yn darparu rhaglenni chwaraeon rhyngwladol byw i S4C heb drosglwyddo unrhyw gost hawliau y mae'r BBC yn ei thalu. Mae hyn yn cynnwys yr hawliau i ddarlledu rhaglenni byw o Gemau'r Chwe Gwlad, Gemau Rhyngwladol yr Hydref, a phencampwriaeth Ewro 2020.

Mynediad i'r iPlayer – mae S4C ar iPlayer llawn sy'n rhoi mynediad eang ar draws y DU. Caiff cost iPlayer ei chodi ar S4C ar sail 'dielw' er mwyn cydnabod y bartneriaeth unigryw rhwng y BBC ac S4C.

Mynediad i Archif y BBC – mae rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan y BBC yn cael defnyddio rhan fawr iawn o archif rhaglenni BBC Cymru Wales ar delerau nad ydynt ar gael i ddarlledwyr eraill.

7.3. Y Sgwâr Canolog

Mae BBC Cymru yn symud ei brif ganolfan gynhyrchu i'r Sgwâr Canolog yng nghanol dinas Caerdydd.

O ganlyniad i gyflwr seilwaith y dechnoleg yn Llandaf a chyfyngiadau gweithio mewn adeilad a oedd wedi'i ffurfweddu'n wael, bydd yr adeilad newydd yn hanner maint y cyfleusterau presennol a bydd y dechnoleg newydd yn golygu ei bod hi'n rhatach rhedeg ein gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Fel rhan o'r datblygiad newydd, bydd rhai o staff S4C hefyd ym symud i'r adeilad newydd

Roedd staff technegol S4C wedi cael eu trosglwyddo i gyflogaeth y BBC yn gynharach eleni fel rhan o baratodau'r sianel ar gyfer rhannu adeilad â'r BBC yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd, ddechrau 2020. O hynny ymlaen, bydd y BBC yn gyfrifol am ddarlledu a dosbarthu cynnwys S4C, ar deledu ac ar-lein

7.4. Cyllid Ffi'r Drwydded S4C

Yn ogystal â'r cyflenwad statudol o raglenni gan y BBC, mae S4C hefyd yn cael cyllid ffi'r drwydded yn uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth y BBC a oedd yn werth £74.5m y

flwyddyn i S4C yn 2018/19. Mae'r swm hwn yn sefydlog tan ddiwedd cyfnod presennol ffi'r drwydded yn 2021/22.

Mae Siarter Frenhinol newydd y BBC (2017) yn cadarnhau y dylai Ffi'r Drwydded barhau i gefnogi darparu S4C a bod yn sail i hynny. Mae'r Siarter hefyd yn nodi ei bod yn rhaid i'r 'BBC ac S4C gael nod cyffredin o gydweithio i arsylwi a diogelu annibyniaeth y naill a'r llall, a gwneud y defnydd gorau o gyllid o'r fath er budd cynulleidfaoedd (ac yn enwedig y rheini sy'n siarad Cymraeg), i'r graddau sy'n cyd-fynd â'u rhwymedigaethau'.¹

7.5 Trefniadau atebolrwydd

Yn 2017, cyhoeddodd Awdurdod S4C a Bwrdd unedol y BBC gytundeb a oedd yn cymryd lle'r cytundeb gweithredu a oedd yn sail i berthynas Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC rhwng 2013 a diwedd mis Mawrth 2017.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth, Cyllid ac Atebolrwydd yn rhestru sut bydd y ddau ddarllidwr yn ymrwmo i weithio'n greadigol gyda'i gilydd er budd y gwylwyr a'r gynulleidfa Gymraeg.

Mae ymrwymiad y BBC i ddatblygu ac i sefydlu partneriaethau adeiladol a theg yn un o brif nodweddion ei Siarter. Cafodd yr ymrwymiad i ddarparu cyllid i S4C fel rhan o'r cytundeb fframwaith ei wneud ar yr un pryd.

Mae'r cytundeb hwn yn seiliedig ar dair elfen hanfodol, ac yn eu diffinio:

Y cyllid y bydd S4C yn ei gael yn sgil ffi'r drwydded teledu, a natur ei atebolrwydd i'r BBC am y cyllid hwn

Cyfraniad statudol gan y BBC o ddeg awr o raglenni i S4C bob wythnos, a

Natur y bartneriaeth weithredol ehangach a fydd yn cynnwys y BBC yn darparu cyfleusterau technegol i S4C.

Bydd y cytundeb partneriaeth yn para tan ddiwedd cyfnod siarter newydd y BBC sef 2028.

8. Y Sgwâr Canolog

Mae'r BBC yn buddsoddi tua £100m yn ei ganolfan ddarlledu fodern newydd yng nghanol dinas Caerdydd. Mae canolfan ddarlledu newydd BBC Cymru yn hanfodol er mwyn disodli'r heb dechnoleg a chyfleusterau yn Llandaf. Yn fras, bydd tua hanner maint safleoedd presennol Llandaf.

Mae adroddiad ar gyfer BBC Cymru gan BOP Consulting wedi canfod bod datblygu'r Sgwâr Canolog ar y trywydd iawn i ychwanegu £1.1 biliwn at werth ychwanegol gros Dinas Caerdydd, a 1,900 swydd gyfwerth ag amser llawn ychwanegol yn y ddinas dros ddeng mlynedd.

Bydd y Sgwâr Canolog yn ganolfan greadigol ar gyfer y diwydiant a dyma fydd adeilad mwyaf agored y BBC hyd yma. Gyda'r adeilad yng nghanol Caerdydd, bydd y cyhoedd yn

cael cerdded o amgylch y llawr gwaelod, a bydd ein partneriaid yn y sector annibynnol yn cael mynediad i'r adeilad am ddim. Bydd rhai o staff S4C hefyd yn symud i'r adeilad a dyma fydd canolfan y darlledwr yng Nghaerdydd.

Bydd y dechnoleg yn y Sgwâr Canolog yn fwy modern nag unrhyw ganolfan ddarlledu arall yn y DU. Bydd craidd IP Byw yn galluogi BBC Cymru i ddefnyddio'r cyfleusterau yn y Sgwâr Canolog yn fwy hyblyg.

9. Y Gymraeg

Mae ymrwymiad y BBC i'r Gymraeg yn sylweddol.

9.1 BBC Radio Cymru

BBC Radio Cymru yw gorsaf lafar a cherddoriaeth Gymraeg genedlaethol y BBC, ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni i adlewyrchu newyddion, materion cyfoes, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Cafodd BBC Radio Cymru 2 ei lansio yn 2018 gan gynnig dewis i wrandawyr yn y bore gyda newyddion a materion cyfoes ar Radio Cymru a cherddoriaeth a sgwrsio ar Radio Cymru 2.

Mae'r orsaf yn darlledu amrywiaeth eang o raglenni bob dydd yn ogystal â rhoi sylw byw i ddigwyddiadau mawr fel Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Mae cerddoriaeth yn rhan annatod o'r amserlen ac mae'r orsaf yn darlledu mwy o gerddoriaeth Gymraeg nag unrhyw ddarlledwr arall.

9.2 Rhaglenni ar gyfer S4C

Mae nifer o'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu gan BBC Cymru yn gonglfaen i amserlen S4C. Mae'r rhain yn cynnwys y ddrama sebon *Pobol y Cwm* yn ogystal â'r rhaglen newyddion ddyddiol, *Newyddion* sy'n rhoi newyddion a safbwyntiau o bob cwr o Gymru a'r tu hwnt.

Mae'r bartneriaeth rhwng S4C a BBC Cymru yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r 10 awr o raglenni a ddarperir gan y BBC bob wythnos, o gynyrchiadau ar y cyd fel *Keeping Faith/Un Bore Mercher* i rannu cyfleusterau chwarae yn y Sgwâr Canolog, gan arbed arian i'r ddau ddarlledwr.

9.3 BBC Cymru Fyw

Darpariaeth arlein y BBC drwy gyfrwng y Gymraeg yw BBC Cymru Fyw. Mae'n ddarpariaeth gynhwysfawr sy'n cynnig cynnwys unigryw a nodedig arlein sy'n adlewyrchu newyddion, materion cyfoes, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru yn y Gymraeg.

9.4 BBC Sounds

Yn 2018, fe lansiodd y BBC blatfform newydd a elwir BBC Sounds, gan ddarparu cyfle arall i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn y Gymraeg. Mae'r cynnwys pwrpasol i'r

cyfrwng wedi ei anelu'n benodol at rai sy'n fengach na 35 mlwydd oed ac mae'r podlediadau diweddaraf yn cynnwys teitlau megis *Wythnos yng Nghymru Sydd* gan Iwan England, *Nid Rwan ond Nawr* cyfres am hanes Cymru gyda'r comediwr Tudur Owen a Dyl Mei a *Siarad Secs* gyda Lisa Angharad. Mae mwy o gynnwys i ddod eleni.

9.5 Bitesize

Mae BBC Bitesize yn wasanaeth ar draws y DU i gefnogi astudio ac addysg. Yng Nghymru mae gwasanaeth pwrpasol – yn Gymraeg ac yn Saesneg – i gefnogi disgyblion sy'n astudio yng Nghymru yn unol â'r cwricwlwm ar draws y cyfnodau allweddol, TGAU a Safon Uwch. Mae cynnwys pwrpasol ar gyfer y rheini sy'n astudio Cymraeg fel pwnc iaith gyntaf ac ail iaith.

9.6 Dysgu Cymraeg

Mae ein gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau. Er enghraifft, ym mis Hydref 2019, roedd gan BBC Radio Cymru wythnos arbennig i'r rheini sy'n dysgu Cymraeg. Roedd yr orsaf wedi darparu llwyfan i glywed rhagor o leisiau dysgwyr yn ogystal â darparu cynnwys defnyddiol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Cafodd ei gynnal er mwyn cyd-daro â Diwrnod Shwmae Su'mae, ac roedd yn bartneriaeth rhwng BBC Radio Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae'r BBC hefyd yn cynhyrchu rhaglen newyddion wythnosol – *Yr Wythnos* – sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddysgwyr Cymraeg. Mae'r rhaglen hon yn cael ei darlledu ar S4C bob dydd Sul.

10. Effaith ddiwylliannol y BBC yng Nghymru

Yn ogystal â'i raglenni a'i allbwn cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, rhwydwaith a rhyngwladol, mae BBC Cymru yn gweithio gydag eraill yn y diwydiant a gyda'i gynulleidfaoedd mewn nifer o ffyrdd sy'n rhoi gwerth i'r gymuned.

10.1 Gweithio gyda'r diwydiant

Mae'r BBC yn comisiynu ac yn caffael cynnwys ar draws ystod o genres yn ei raglenni ar gyfer rhwydwaith y BBC a BBC Cymru. Mae'r genres hyn yn cynnwys Drama, Comedi, Ffeithiol a Rhaglenni yn ystod y dydd.

Mae angen i wasanaeth Comisiynu'r BBC ddiwallu gofynion gwahanol sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, Siarter a Chytundeb 2016 a'n Trwydded Weithredu gyfredol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yn y pen draw, sicrhau cystadleuaeth ar gyfer yr holl raglenni teledu perthnasol erbyn 2027;

- Sicrhau bod 25% o raglenni teledu'n cael eu gwneud gan gynhyrchwyr annibynnol bob blwyddyn yn gyffredinol, yn ogystal ag ar BBC One a BBC Two ar wahân;
- Sicrhau ein bod yn comisiynu 50% o'r gwariant cynhyrchu a 50% o'r oriau y tu allan i Lundain – gyda gofyniad bod 5% o'r gwariant teledu Rhwydwaith perthnasol a 4% (gan godi i 5%) o'r oriau darlledu teledu Rhwydwaith wedi'u cynhyrchu yng Nghymru;
- Sicrhau bod cystadleuaeth yn deg, yn rhesymol, yn wrth-gamwahaniaethol ac yn dryloyw.

Rydym yn comisiynu gan amrywiaeth o gynhyrchwyr, gan gynnwys ein timau cynhyrchu gwasanaeth cyhoeddus mewnol, BBC Studios, a nifer fawr o gynhyrchwyr annibynnol.

Yn ogystal â'n prosesau comisiynu rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r sector ac yn darparu cyfleoedd i gwmnïau annibynnol gymryd rhan mewn hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn y diwydiant.

Bydd ein pencadlys darlledu newydd yn Sgwâr Canolog Caerdydd hefyd yn dod yn adnodd ar gyfer cwmnïau annibynnol sy'n cael eu comisiynu.

10.2 Sgiliau a hyfforddiant

Mae'r sector diwydiannau creadigol wedi tyfu'n ddramatig yng Nghymru dros y degawd diwethaf, ac mae BBC Cymru yn falch o fod wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae'r ymrwymiad hwn i'w weld mewn amrywiaeth eang o raglenni datblygu doniau sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r sector ehangach.

Mae BBC Cymru hefyd yn falch iawn o'r hyn mae wedi'i wneud i ddenu doniau newydd i'r busnes i alluogi cenhedlaeth newydd i wneud eu marc yn y diwydiant a llenwi bylchau yn y farchnad sgiliau

10.2 Prentisiaethau

Ar hyn o bryd, mae BBC Cymru yn cynnig dros bump ar hugain o brentisiaethau bob blwyddyn ar draws ystod eang o feysydd technegol a chynhyrchu.

Mae'r rhain yn amrywio o gyfleoedd hyfforddi ym maes cynhyrchu a newyddiaduraeth i brosesau darlledu a chreu cynnwys digidol. Mae ein prentisiaethau'n rhoi cyfle i unigolion gael profiadau unigryw ac i weithio gyda rhai o'r enwau mwyaf yn y diwydiant. Ar ôl i'r prentisiaid gwblhau eu cwrs, byddwn yn cynnig swyddi ar lefel mynediad y gallant wneud cais amdanynt gyda'u sgiliau a'u cymwysterau newydd

Mae nifer o'r prentisiaid sydd wedi gorffen eu cyfnod fel prentis yn parhau i weithio yn y diwydiant, naill ai yn y BBC neu yn y farchnad leol fel gweithwyr llawrydd neu i gwmnïau annibynnol.

Eleni, bydd y BBC yn cymryd cam strategol pwysig arall yn ei ymrwymiad i Gymru wrth iddo agor ei ganolfan ddarlledu newydd yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd. Bydd y cam hwn yn cwblhau rhaglen fawr o ailfuddsoddi a moderneiddio ar draws Cymru, gan

ddarparu'r cyfleusterau cynhyrchu a darlledu mwyaf modern a geir yn unrhyw le yn Ewrop.

Fel rhan o'n cynlluniau, rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddi newydd i dros 250 o bobl, gan gynnwys 20 o leoliadau ychwanegol ar gyfer prentisiaethau a hyfforddeion cyflogedig amser llawn yn y sefydliad. Gan weithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, mae'r cyfleoedd newydd hyn yn agor y drws i unigolion o gymunedau a chefnidiroedd sy'n teimlo nad ydynt, yn draddodiadol, wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r diwydiannau creadigol.

10.2.2 BBC Writersroom Cymru

Mae'r Writersroom yng Nghymru yn fenter gan y BBC i gefnogi awduron newydd ac awduron sydd wedi bod yn ysgrifennu ers tro, drwy amrywiaeth o weithdai a gwobrau a drwy fentora.

Cynhaliwyd seremoni wobrwyo gyntaf Awdur Preswyl Cymru yn ddiweddar gyda'r awdur, Rhiannon Boyle, a gafodd ei geni yng Nghaergybi, yn cael ei dewis yn Awdur Preswyl cyntaf o restr hir drawiadol o 17 o geisiadau. Mae Rhiannon nawr wrthi'n datblygu syniadau drama gyda BBC Studios cyn treulio chwe mis gyda National Theatre Wales. Mae Matthew Hall, awdur *Keeping Faith* ac un o'r beirniaid, hefyd yn cynnig sesiynau mentora a bydd sgript fuddugol Rhiannon 'Safe from Harm' yn cael ei darlledu ar BBC Radio 4 yn 2020. Mae cystadleuaeth Awdur Preswyl y flwyddyn nesaf newydd gael ei chyhoeddi.

Cynhaliwyd Gŵyl Awduron Cymru yn ddiweddar yn Amgueddfa Cymru lle cafwyd diwrnod llawn o sesiynau a oedd wedi cael eu creu i rannu gwybodaeth ac ysbrydoli doniau ysgrifennu yng Nghymru. Cafodd y brif araith agoriadol ei thraddodi gan Russell T Davies ac yna cafwyd sesiynau ar ysgrifennu comedi, sgriptio Cymraeg a straeon difyr gan Andrew Davies ar ei yrfa ysgrifennu. Sesiwn drafod gyda Ruth Jones a Rob Brydon oedd yn cloi'r ŵyl.

10.2.3 Uprising

Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r elusen Uprising wedi bob yn gweithio i ddarparu hyfforddiant arwain a datblygu sgiliau i bobl ifanc o gefnidoedd lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc dan anfantais gymdeithasol. Ei chenhadaeth yw rhoi gwybodaeth, rhwydweithiau, sgiliau a hyder i bobl ifanc i gyflawni eu potensial i arwain, i ddod o hyd i gyfleoedd newydd ac i weddnewid y byd o'u cwmpas drwy weithredu cymdeithasol. Mae nifer o sefydliadau yng Nghaerdydd, gan gynnwys BBC Cymru, wedi dod yn bartner gydag Uprising gan ddarparu cyfleoedd mentora a datblygu i arweinwyr ifanc.

10.2.4 It's My Shout

Mae rhaglen ddatblygu *It's My Shout* yn rhoi cyfleoedd ymarferol ym maes cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu. Mae'n targedu unigolion a grwpiau na fyddai fel arfer yn gallu cael gafael ar y cyfryw gyfleoedd. Mae BBC Cymru yn bartner ac yn noddwr yn y cynllun (gydag S4C) - gan ddarparu mentora a hyfforddiant o flaen a thu ôl y camera ar gyfer y cyfranogwyr. Bob haf, mae *It's My Shout* yn cynhyrchu ffilmiau byr 30 munud yn Gymraeg a Saesneg, chwe ohonynt yn cael eu darlledu ar BBC Two Wales ac ar gael wedyn ar BBC iPlayer. Ochr yn ochr â hyn, mae cynllun ar gael hefyd ar gyfer doniau newydd sy'n chwilio am syniadau ar gyfer rhaglenni dogfen. Mae'r rhain hefyd yn cael eu darlledu ar BBC Two Wales dan y teitl.

10.2.5 Ffilm Cymru Wales - Beacons

Mae prosiect Beacons, sef partneriaeth rhwng BBC Cymru a Ffilm Cymru, yn ceisio rhoi sylw i doniau eithriadol ym maes ffilmiau o Gymru, gan ddwyn sylw at awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr, a'u helpu i sefydlu eu cymwysterau ar gyfer cynhyrchu rhaglenni. Eleni, bydd rhwng chwech a deg ffilm fer o hyd at 30 munud yn Saesneg neu yn Gymraeg yn cael eu gwneud.

10.3 Partneriaethau Newyddion Lleol

Nod y Partneriaethau Newyddion Lleol (LNP) rhwng y BBC a diwydiant newyddion rhanbarthol y DU yw cefnogi adroddiadau gwasanaeth cyhoeddus, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau newyddiaduraeth.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i nifer o brosiectau dros gyfnod y Siarter:

Darparu Canolfan Newyddion er mwyn i sefydliadau cyfryngau allanol allu cael gafael ar ddeunyddiau fideo a sain y BBC i'w defnyddio ar-lein.

Uned Data a Rennir - wedi'i staffio gan y BBC ynghyd â gohebwr ar secondiad o ddarparwyr newyddion lleol - er mwyn rhannu newyddiaduraeth data â sefydliadau newyddion ar draws y diwydiant cyfryngau.

Cyflogi hyd at 150 o Ohebwr Democratiaeth Lleol, a fydd yn rhoi sylw i gynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill ar ran y BBC a sefydliadau newyddion lleol; yng Nghymru mae 11 o ohebwr. Nod y Partneriaethau Newyddion Lleol (LNP) rhwng y BBC a'r diwydiant newyddion rhanbarthol yn y DU fydd yn ceisio cefnogi adroddiadau gwasanaeth cyhoeddus, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau newyddiaduraeth gan roi sylw i'r 22 cyngor lleol yn ogystal ag amrywiaeth o gyrff dinesig eraill.

10.4 Plant mewn Angen

BBC Plant mewn Angen yw elusen gorfforaethol y DU y BBC. Mae'n rhoi grantiau i brosiectau yn y DU sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd dan anfantais.

Ar noson Plant mewn Angen (16 Tachwedd 2019), cafodd dros £2.3m ei godi yng Nghymru a oedd yn cyfrannu at gyfanswm y DU sef £47.9m.

Ar hyn o bryd mae BBC Plant mewn Angen yn cyllido 184 prosiect yng Nghymru sy'n werth cyfanswm o £11,393,164 sy'n helpu 20,000 o blant yn y 22 awdurdod lleol.

10.5 Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Cafodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ei sefydlu yn 1928 ac mae wedi ennill ei lle ar y llwyfan rhyngwladol, yn y stiwdio recordio, ac mae'n rhan anhepgor o'r dirwedd ddiwylliannol yng Nghymru.

Yn rhan o BBC Cymru ac yn cael cefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Gerddorfa'n llysgennad ar ran cerddoriaeth Cymru, ac yn hyrwyddo cyfansoddwyr a cherddorion cyfoes. Bydd Lisa Tregale yn dod yn Gyfarwyddwr Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Gymreig y BBC ddechrau 2020 a bydd Ryan Bancroft yn dod yn brif arweinydd ym mis Medi 2020.

Mae BBC NOW yn cyrraedd cynulleidfaoedd yn fyw yn y neuadd gyngerdd, ar radio a theledu'r BBC ac yn ddigidol drwy gyngherddau sy'n cael eu ffrydio'n fyw.

Ochr yn ochr ag amserlen brysur o gyngherddau ledled Cymru, mae BBC NOW yn perfformio bob blwyddyn yng nghyfes Proms y BBC yn Llundain, a phob dwy flynedd yn BBC Canwr y Byd Caerdydd. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda'i chorws preswyl, Corws Cenedlaethol Gymreig y BBC.

Ym mis Rhagfyr 2018, roedd BBC NOW wedi teithio i bedair dinas yn Tsieina gyda'r arweinydd Xian Zhang, gan weithio gyda'r British Council yn Tsieina fel rhan o'u hymgyrch Ysbrydoli Merched yn y Celfyddydau. Yn 2015, fel rhan o daith gynhwysfawr o amgylch ardal De America, bu'r gerddorfa'n ymweld â'r Wladfa ym Mhatagonia, lle bu'r cerddorion yn gweithio mewn ysgolion a gyda'r gymuned i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf ymsefydlu yn y rhanbarth

Mae gan BBC NOW raglen ddysgu brysur a blaengar hefyd. Gan adeiladu ar ei gwaith arloesol gydag ysgolion anghenion addysgol arbennig, ac oedolion a phlant byddar a thrwm eu clyw, perfformiodd BBC NOW y Prom Hamddenol cyntaf erioed yn 2017. Enillodd y digwyddiad hwn wobwr y Digwyddiad Gorau i Deuluoedd, Fantastic for Families Awards.

10.6 Gorwelion

Nod Gorwelion, prosiect sy'n cael ei gyflwyno'n flynyddol gan BBC Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, yw cefnogi datblygiad cerddoriaeth gyfoes annibynnol, newydd yng Nghymru. Mae detholiad o 12 o fandiau a cherddorion yn cael eu dewis bob blwyddyn gan arbenigwyr i fod yn rhan o'r prosiect, gan dderbyn arweiniad a chefnogaeth i sefydlu eu gyrfaedd yn y diwydiant cerddoriaeth.

Bydd 12 Gorwelion yn cael cyfleoedd i chwarae mewn ystod eang o wyliau a recordio sesiynau ar gyfer y radio. Roedd 12 y llynedd hyd yn oed wedi recordio eu traciau eu hunain yn Stiwdios enwog Rockfield.

10.7 Archif Ddarlledu Genedlaethol Cymru

Nod Archif Ddarlledu Genedlaethol Cymru yw bod yn "gofnod o fywyd y genedl" ac yn "gof cenedlaethol Cymru".

Bydd yr archif, y gyntaf o'i bath yn y DU, mewn pedair canolfan ddigidol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, Wrecsam, Caerfyrddin a Chaerdydd.

Ar ben hynny, bydd y bartneriaeth Archif Ddarlledu Genedlaethol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau wyneb yn wyneb sy'n golygu bod cynnwys archif wedi'i ddigideiddio'n mynd i nifer o gymunedau yng Nghymru. Bydd yr Archif Ddarlledu Genedlaethol hefyd yn cynnig 1,500 o glipliau a rhaglenni o archif BBC Cymru.

Dan y cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, mae cynnwys y BBC yn ymuno ag archifau ITV, S4C, ac archifau sgrin a sain sydd wedi cael eu casglu yn Aberystwyth. Bydd yr Archif yn cynnwys holl archif BBC Cymru yn y ffurf wreiddiol a'r ffurf ddigidol.

Mae'r prosiect wedi derbyn bron i £5m gan Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri, £1m gan Lywodraeth Cymru, £2m o gyllid preifat y llyfrgell a £2.5m o gynnwys digidol a chefnogaeth gan y BBC.

11. Argaeledd a dosbarthiad gwasanaethau'r BBC yng Nghymru

Yng Nghymru, mae gwasanaethau'r BBC ar gyfer y DU i gyd ac ar gyfer Cymru yn unig ar gael ar y llwyfannau canlynol (mae'r canrannau'n cyfeirio at nifer yr aelwydydd sy'n cael darpariaeth ac yn dod o adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd a Chyfyngau'r Genedl 2019 Ofcom oni nodir fel arall):

	Trawsyriant daearol	Trawsyriant lloeren ¹	Trawsyriant cebl ²	BBC iPlayer/Sounds drwy fand eang ¹	BBC Sounds drwy rwydweithia u symudol ¹
Gwasanaethau teledu Rhwydwaith y BBC mewn SD	Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	-
BBC One Wales (HD)	Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	-
BBC Two Wales (HD) ²	Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	-
CBBC (HD)	Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	-
BBC Four, CBeebies, BBC News (HD)	Freeview ar 50% ³	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	-
Radio 1, Radio 2, Radio 4	FM ar 96% DAB ar 92% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio 3	FM ar 92% ⁴ DAB ar 92% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio 4 LW	MW/LW ar 100% ³ DAB ar 92% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio 5 Live	MW ar 90% ³ DAB ar 92% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio Wales	FM ar 91% ⁵ MW ar 96% ⁶ DAB ar 83% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio Cymru	FM ar 96% ³ DAB ar 83% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio Cymru Mwy (2) ⁷	DAB ar 83% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%
Radio 4 Extra, Radio 5 Live Sports Extra, BBC Asian Network, BBC World Service,	DAB ar 92% Freeview ar 98%	Sky a FreeSat ar 98%	Virgin Media ar 23%	97%	69%

¹ Ar gyfer band eang, mynediad i gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch; ar gyfer symudol, eiddo sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr

² Cafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2018

³ Ar sail cyfrifiadau darpariaeth y BBC

⁴ Wedi gostwng o 92% ar ôl ailddyrrannu trawsyriannau i Radio Wales (cyfrifiad darpariaeth y BBC)

⁵ Wedi codi o 79% yn dilyn ailddyrrannu trawsyriannau o Radio 3

⁶ Nodyn – o 2020 bydd hyn yn disgyn 4% i 92%, nid yw'r wybodaeth hon yn gyhoeddus eto

⁷ Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2018

12. Gweithrediadau

12.1 Ffi'r drwydded

£150.50 oedd y ffi ar gyfer trwydded teledu safonol yn y DU yn 2018/19.

Amcangyfrif o'r incwm	
DU	£3,690m
Cymru	£184m

Mae'r ffigurau hyn sydd wedi cael eu hamcangyfrifo ar gyfer pob gwlad wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio cyfran yr eiddo trwyddedig gyda chyfanswm nifer y trwyddedau sydd mewn grym. Mae union nifer y trwyddedau sydd mewn grym yn amrywio'n ddyddiol. Mae nifer yr eiddo trwyddedig yn wahanol i nifer y trwyddedau sydd mewn grym, oherwydd mae'n bosibl bod angen mwy nag un drwydded mewn rhai eiddo. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys trwyddedau am ddim ar gyfer y rheini sy'n byw mewn gofal preswyl.

12.2 Gwariant yng Nghymru

	2018/19 (£m)
Cynnwys rhwydwaith	
Teledu	49
Radio	3
Ar-lein a'r Botwm Coch	1
Cyfanswm gwariant rhwydwaith	53
Cynnwys lleol	
Teledu – BBC One	25
Teledu – BBC Two	8
Radio Wales	15
Radio Cymru	14
Ar-lein a'r botwm coch	11
Cyfanswm y gwariant lleol	73
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig	5
S4C (Rhaglenni BBC Cymru)	22
Datblygu	1
Dosbarthu	25
Cyfanswm	179

12.3 Staff

Yn ystod 2018/19 roedd BBC Cymru yn cyflogi 1,231 o weithwyr, ac roedd 990 ohonynt yn gyflogedig i gefnogi'r gwasanaethau a gynhrychir yng Nghymru yn uniongyrchol.